# Agenda – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 24 Tachwedd 2015

Amser y cyfarfod: 13.30

# (300)v4

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Adroddiad ar Daith Cyllideb 2015 – 'Buddsoddi yn y Gymru a Garem'

(30 munud)

## 4 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol: Nodau'r Cenhedloedd Unedig a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

(30 munud)

## 5 Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus: Y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft

(60 munud)

## 6 Dadl ar Gyfnod 4 y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)

(15 munud)

**NDM5893 Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Yn cymeradwyo Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru).

**Dogfennau Ategol**

Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol

Memorandwm Esboniadol

## 7 Dadl ar Dargedau Tai Fforddiadwy

(60 munud)

**NDM5884 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r cynnydd diweddaraf tuag at gyflawni targed uwch Llywodraeth Cymru o 10,000 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ystod y Cynulliad hwn, a bod 91 y cant o'r targed hwn wedi'i gyflawni.

Yr ystadegau diweddaraf ar y ddarpariaeth o dai fforddiadwy yng Nghymru 2014-15 (Saesneg yn unig)

**Cyflwynwyd y Gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r angen i ddod ag argyfwng tai Cymru i ben ac yn gresynu at y ffaith nad oes unrhyw gysylltiad rhwng targed tai fforddiadwy Llywodraeth Cymru a nifer y bobl sydd angen tai.

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi gwaith ymchwil yr Athro Holmans sy'n nodi os bwriedir cwrdd â'r angen a'r galw am dai yng Nghymru yn y dyfodol, mae angen dychwelyd i gyfraddau adeiladu tai nas gwelwyd ers bron 20 mlynedd a chynnydd yng nghyfradd twf tai fforddiadwy.

Adroddiad y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru - 'Future Need and Demand for Housing in Wales' (Saesneg yn unig)

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylid dyblu'r targed ar gyfer adeiladu tai fforddiadwy yn ystod tymor nesaf y Cynulliad.

## 8 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 25 Tachwedd 2015

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 19 Tachwedd 2015 i'w hateb ar 24 Tachwedd 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. Altaf Hussain (Gorllewin De Cymru):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella'r seilwaith technoleg gwybodaeth sydd ar gael i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)2590(FM)

**2. Christine Chapman (Cwm Cynon):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella canlyniadau addysgol yng Nghwm Cynon? OAQ(4)2587(FM)

**3. Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Prif Weinidog nodi amserlen ar gyfer dychwelyd Maes Awyr Caerdydd i'r sector preifat? OAQ(4)2594(FM)

**4. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am nifer y cleifion o Gymru sy'n cael triniaeth canser yn Lloegr? OAQ(4)2585(FM) **TYNNWYD YN ÔL**

**5. Mick Antoniw (Pontypridd):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â'r blaenoriaethau i Gymru yn natganiad hydref y Canghellor? OAQ(4)2579(FM)

**6. Elin Jones (Ceredigion):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am Lyfrgell Genedlaethol Cymru? OAQ(4)2592(FM)**W**

**7. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am baratoadau ar gyfer ffoaduriaid o Syria a fydd yn cyrraedd yng Nghymru? OAQ(4)2593(FM)

**8. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella cyfraddau goroesi canser yng Nghymru? OAQ(4)2578(FM)

**9. David Rees (Aberafan):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ddenu meddygon i ddod i weithio yn y GIG yng Nghymru? OAQ(4)2595(FM)

**10. Gwenda Thomas (Castell-nedd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ymdrechion i hyrwyddo masnach ryngwladol i gwmnïau o Gymru? OAQ(4)2589(FM)

**11. Keith Davies (Llanelli):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch y Bil Undebau Llafur? OAQ(4)2588(FM)**RW**

**12. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y broses o optio allan o roi organau yng Nghymru? OAQ(4)2582(FM)

**13. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ffedereiddio ysgolion fel dewis amgen yn hytrach na'u cau ar raddfa eang? OAQ(4)2586(FM)

**14. Aled Roberts (Gogledd Cymru):** A yw Llywodraeth Cymru wedi derbyn unrhyw wybodaeth am gynlluniau ar gyfer y gaeaf oddi wrth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a fyddai’n torri yn ôl ar driniaethau yn ystod y cyfnod hwnnw? OAQ(4)2591(FM)**W**

**15. Janet Haworth (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyflwyno band eang cyflym iawn ar draws Gogledd Cymru? OAQ(4)2583(FM)

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar [dudalen y Cyfarfod Llawn]**

**Dydd Mawrth 1 Rhagfyr 2015 a dydd Mercher 2 Rhagfyr 2015**
**Dydd Mawrth 8 Rhagfyr 2015 a dydd Mercher 9 Rhagfyr 2015**
**Toriad: Dydd Llun 14 Rhagfyr 2015 – dydd Sul 10 Ionawr 2016**
**Dydd Mawrth 12 Ionawr 2016 a dydd Mercher 13 Ionawr 2016**

---

**Dydd Mawrth 1 Rhagfyr 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Polisi Caffael – Ysgogi Gwelliant ac Ymgysylltu â Busnesau (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus: Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub o 2016 Ymlaen (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd, ar y rhaglen i ddileu TB (30 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y darpariaethau sy'n ymwneud â'r Swyddfa Brisio sy'n deillio o'r Bil Menter (15 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y darpariaethau sy'n ymwneud â'r Comisiynydd Busnesau Bach sy'n deillio o'r Bil Menter (15 munud)
- Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) 2015 (15 munud)
- Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 (15 munud)

**Dydd Mercher 2 Rhagfyr 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i’r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i’r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl fer-Christine Chapman (Cwm Cynon) (30 munud)

**Dydd Mawrth 8 Rhagfyr 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Cyllideb Ddrafft 2016-17 (30 munud)
- Gorchymyn Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 (Addasu Canlyniadol) 2015
- Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) (60 munud)
- Dadl ar Benderfyniad Ariannol Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) (5 munud)
- Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Casglu a Rheoli Treth (60 munud)

**Dydd Mercher 9 Rhagfyr 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i’r Gweinidog Cyfoeth Naturiol (45 munud)

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 12 Ionawr 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol: Cynhyrchu ynni lleol (30 munud)
- Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Ffioedd Cofrestru) (Cymru) 2016 (15 munud)
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2016 (15 munud)
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y canlynol gyda'i gilydd ond i bleidleisiau arnynt ar wahân:
    - Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodol a Chysyniadau Eilaidd a Ragnodir (Cymru) 2016 (5 munud)
    - Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffioedd) (Cymru) 2016 (5 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Diwygio Lles a Gwaith, mewn perthynas â darpariaethau/gwelliannau'n ymwneud â'r Comisiwn Symudedd Cymdeithasol (30 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Tai a Chynllunio mewn perthynas â darpariaethau'n ymwneud â rhyddfreinio ac ymestyn prydlesi hir (30 munud)
- Dadl ar Adroddiad Blynyddol Effaith a Dylanwad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2014-15 (60 munud)

**Dydd Mercher 13 Ionawr 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Bil Cymru Drafft (180 munud)
- Dadl Fer (30 munud)